**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Awst 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Daw i rym am 4.00am ar 8 Awst 2021, ac eithrio'r newidiadau technegol i'r manylebau ar gyfer profion ar ôl cyrraedd a fydd yn dod i rym ar 23 Awst. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth i chi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion Cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Am 4.00am ar 8 Awst bydd y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau heddiw yn:

- Ychwanegu **Georgia, Mayotte, Mecsico a Reunion** at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau;
- Tynnu **Bahrain, India, Qatar a'r Emiraethau Arabaidd Unedig** oddi ar y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau a'u hychwanegu at y "rhestr oren" o wledydd a thiriogaethau;
- Tynnu **Awstria, yr Almaen, Latfia, Norwy, Rwmania, Slofacia a Slofenia** oddi ar y "rhestr oren" a'u hychwanegu at y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau;
- Esemptio pobl sydd wedi bod yn **Ffrainc Fetropolitanaidd** (tir mawr Ffrainc gan gynnwys ynys Corsica), neu wedi teithio drwyddi, rhag y gofynion ynysu a chymryd prawf PCR ar Ddiwrnod 8 os ydynt wedi cael eu brechu'n llawn yn rhaglenni brechu'r DU / UE / UDA. Bydd hynny'n gymwys hefyd i blant dan 18 oed a phobl sydd wedi cymryd rhan mewn treialon brechu;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Ychwanegu R&A – Cwpan Curtis at y rhestr o ddigwyddiadau penodedig sy'n ddarostyngedig i drefn brofi bwrpasol;
- Gwneud newidiadau i'r manylebau technegol ar gyfer profion ar ôl cyrraedd.

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 5C o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn sgil y diwygiad i reoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i estyn yr esemptiadau yn rheoliad 2A i bersonau sy'n teithio o Ffrainc Fetropolitanaidd.

Ar 23 August 2021 bydd y diwygiad yn:

- Newid y manylebau technegol ar gyfer profion ar ôl cyrraedd.

Mae angen i’r newidiadau i’r rhestrau teithio coch, oren a gwyrdd ddod i rym cyn gynted â phosibl i barhau â’r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, oherwydd y bydd y gyfraith yng Nghymru yn gymwys i deithwyr, ni waeth pa borthladd y daethant drwyddo. O ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, yn enwedig ar gyfer y gwledydd hynny lle mae’r sefyllfa wedi newid, a hwythau wedi symud i’r “rhestr goch”, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Mae'r newidiadau o ran manyleb dechnegol y profion ar ôl cyrraedd hefyd yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod. Cyflwynir y newid hwn o 23 Awst,, sy’n parhau â’r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol ac yn caniatáu ar gyfer y cyfnod arweiniol sy'n ofynnol cyn i’r labordai profi roi’r newidiadau ar waith.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services